



Theatr
Genedlaethol
Cymru

Ie Ie Ie

theatr.cymru

[#IeIeIe](https://twitter.com/TheatrGenCymru)

[@TheatrGenCymru](https://twitter.com/TheatrGenCymru)

Y DAITH / THE TOUR

Theatr y Sherman, Caerdydd
Sherman Theatre, Cardiff
05 + 06 + 08 + 09.02.24 19:30
07.02.24 19:00
shermantheatre.co.uk
029 2064 6900

Pontio, Bangor
01.03.24 19:30
pontio.co.uk
01248 38 28 28

Neuadd Dwyfor, Pwllheli
04.03.24 19:30
neuadddwylfor.cymru
01758 704088

Galeri, Caernarfon
05.03.24 19:30
galericaernarfon.com
01286 685222

Theatr Clwyd
Yr Wyddgrug / Mold
06.03.24 19:30
theatrclwyd.com
01352 344101

Theatr Derek Williams
07.03.24 19:30
theatrderekwilliams.cymru

Canolfan y Celfyddydau Taliesin
Taliesin Arts Centre
Abertawe / Swansea
12.03.24 19:30
taliesinartscentre.co.uk
01792 60 20 60

Yr Egin,
Caerfyrddin / Carmarthen
14.03.24 19:30
yreglin.cymru
01267 611 600

Ffwrnes, Llanelli
15.03.24 19:30
theatrausirgar.co.uk
0345 2263510



Bydd capsïynau agored Cymraeg a Saesneg ym mhob perfformiad
Welsh and English open captions in every performance

AM FWY O WYBODAETH AR ARCHEBU TOCYNNAU EWCH I:
FOR MORE INFO ON HOW TO BOOK TICKETS GO TO:

theatr.cymru



NODYN GAN GYFARWYDDWR
ARTISTIG THEATR
GENEDLAETHOL CYMRU

NOTE FROM THE ARTISTIC
DIRECTOR OF THEATR
GENEDLAETHOL CYMRU

STEFFAN DONNELLY



HELO! CROESO A
DIOLCH YN FAWR AM
DDOD I WELD **IE IE IE**.

Rydyn ni'n gobeithio wnewch chi fwynhau sioe sy'n ymchwilio pwnc cymhleth a phwysig mewn ffordd hynod theatrig, gofalgar a direidus.

Mae cydsynio (consent) yn effeithio pawb mewn gwahanol ffyrdd, dim ots beth yw'ch oedran, a mae creu darn o theatr sy'n mynd i afael efo hyn yn dipyn o her - ond rwy'n gobeithio y gwnewch chi gytuno bod **IE IE IE** yn ateb yr her wrth blethu profiadau go iawn gyda stori afaelgar a pherfformiad arbennig.

Gwelais fersiwn o'r sioe yma tra oeddwn allan yn Montréal, Canada yn ystod Gŵyl CINARS 2022 a mi wnes i wirioni efo'r cyflwyniad aml-haenog, y ffordd ysgafn mae'r gynulleidfa yn rhan o'r cynhyrchiad a'r sgôp i gydweithio efo ymyfranogwyr.

HELLO! WELCOME AND
THANK YOU SO MUCH
FOR COMING TO SEE
IE IE IE.

We hope you enjoy a show that explores a complex and important subject in a highly theatrical, mindful and playful way.

Consent affects everyone in different ways, whatever your age, and creating a piece of theatre that addresses this is quite a challenge - but I hope you'll agree that **IE IE IE** meets this challenge in weaving real life experiences with a compelling story and an outstanding performance.

I saw a version of this show while I was out in Montréal, Canada during the 2022 CINARS Festival and I was captivated by the multi-layered presentation, the lighthearted way the audience is involved in the production and the scope to collaborate with participants.

Hon oedd y sioe orau i mi weld ymhlith degau o sioeau rhyngwladol ac roeddwn i'n falch o allu trafod y cynhyrchiad efo'r tîm o Aotearoa/Seland Newydd wnaeth ddyfeisio'r sioe wreiddiol. Mewn gwirionedd defnyddio'r sioe honno fel templad ydyn ni wrth i ni drosi i'r Gymraeg a chyd-greu elfennau o'r cynhyrchiad efo pobl ifanc ledled ein gwlad.

Mae gymaint o gyfryngau ac adnoddau Saesneg ar gael ac mae cynnal gofod i drafod cydsynio, rhyw a pherthnasau yn y Gymraeg yn teimlo'n radical.

Mae gallu theatr i ddad-bacio profiadau a theimladau cymhleth yn werthfawr iawn mewn byd sy'n gallu teimlo'n ddigon oeraidd. Mae'r sioe yn teimlo fel sgwrs agored, sy'n addysgu heb fod yn diddactig, ac yn ein tywys i feddwl yn ddfwn amdanom ein hunain ac ein perthynas ag eraill. Faswn i wedi caru cael gweld sioe fel **Ie Ie Ie** pan oeddwn i'n tyfu fyny.

Dyma sioe sy'n herio ffurf theatr drwy ddefnyddio fideos gair-am-air (verbatim), darlleniadau gan y gynulleidfa, cyfle i anfon negeseuon yn ystod y sioe, yn ogystal â dramatwrgiaeth gywrain. Mae'r contract efo'r gynulleidfa yn gyffrous ac yn cofleidio cyfrwng byw theatr a'i ffordd unigryw o gynnal fforwm.

Fel cwmni cenedlaethol mae cynrychioli pobl ar draws y wlad yn ein gwaith a theithio mor agos at eu stepen ddrws yn ganolog i'n gweledigaeth. Yn ogystal â theithio ein sioeau *Rhinoseros* a *Swyn*, roedd misoedd olaf 2023 hefyd yn llawn o waith paratoi cyfranogol ar gyfer **Ie Ie Ie**. Roedd ein tîm cyfranogi, sy'n cael ei arwain gan Sian Elin James, yn rhedeg nifer fawr o weithdai mewn ysgolion a gyda pobl ifanc am gydsynio.

it was the best show I saw amongst tens of international shows and I was pleased to be able to discuss the production with the team from Aotearoa/New Zealand who devised the original show. We're using that show as a template as we translate it into Welsh and co-create elements of the production with young people across Wales.

There are so many English-language media and resources available and maintaining a space to discuss consent, sex and relationships in Welsh feels radical.

In a world that can feel quite cold, theatre's ability to unpack experiences and complex feelings is so valuable. The show feels like an open conversation, educating without being didactic, and leading us to think deeply about ourselves and our relationships with others. I would have loved to see a show like **Ie Ie Ie** when I was growing up.

This is a show that challenges the form of theatre through the use of verbatim videos, readings from the audience, an opportunity to send messages during the show, as well as skilful dramaturgy. The contract with the audience is exciting and embraces the live medium of theatre and its unique way of holding a forum.

As a national company, representing people across Wales in our work and travelling as close to their doorstep as possible is central to our vision. As well as touring our *Rhinoseros* and *Swyn* shows, the final months of 2023 were also busy with participatory preparation for **Ie Ie Ie**. Our participation team, led by Sian Elin James, ran a large number of workshops in schools and with young people on consent.

Mae hyn wedi ysgogi sgysiau bythgofiadwy efo pobl ifanc am berthnasau iach a gwahanol brofiadau o gariad yng Nghymru heddiw. Rydych yn cael cipolwg ar y gwaith cyfoethog yma yn ystod y sioe ac wrth wyllo dwi'n teimlo'n obeithiol iawn am y dyfodol.

Hoffwn i ddiolch i chi, ein cynulleidfa, am ddod ar y siwrne efo ni. Mae diolch mawr i'r artistiaid sydd wedi gweithio ar greu **Ie Ie Ie**. Mae wedi bod yn bleser cydweithio efo Eleri, Juliette, Lily, Enfys a Sian Elin ar y cynhyrchiad arbennig yma. Fy ngobaith ydi bydd y sioe yn cael ei defnyddio fel agoriad i drafod cydsynio mewn ffordd hygyrch a phositif ymhell i'r dyfodol.

This has sparked some memorable conversations with young people about healthy relationships and different experiences of love in Wales today. You get a glimpse of this rich tapestry of work during the show and as I watch it, I feel very hopeful about the future.

I'd like to thank you, our audience, for coming on the journey with us. A huge thanks goes to the artists who have worked on the creation of **Ie Ie Ie**. It has been such a pleasure to work with Eleri, Juliette, Lily, Enfys and Sian Elin on this special production. My hope is that the show will be used to open up discussions about consent in an accessible and positive way well into the future.



Enfys Clara, Eleri Morgan a / and Juliette Manon

NODYN GAN GYFARWYDDYDD IE IE IE NOTE FROM THE IE IE IE DIRECTOR

JULIETTE MANON

Nath neb byth siarad am gydsyniad gyda fi.

Mae gen i ryw gof bras o gyflwyniad powerpoint yn y chweched ddsbarth a ddaeth i ben gyda'r bechgyn yn gwneud jôcs amhriodol a sawl merch yn gadael yr ystafell mewn dagrau. Rwyf wedi siarad â sawl person sydd â phrofiadau ac enghreifftiau brawychus tebyg o orfod llywio cydsyniad a'u profiadau cyntaf i gyd ar eu pennau eu hunain. Wrth i mi wylwio cyfweiliadau fideo gan bobl ifanc ledled Cymru yn siarad am eu profiadau nhw o gydsyniad dwi'n teimlo fy mod yn galaru unwaith eto am effeithiau diffyg sgwrs ynghylch caniatâd yn fy mywyd i, a'u rhai nhw hefyd. Y tro hwn, fodd bynnag, rwy'n teimlo'n obeithiol ein bod ni yn gwneud rhywbeth i newid y (diffyg) naratif.

Y mwya dwi'n siarad am **IE IE IE** gyda phobl y mwyaf y mae'n taro fi pa mor angenrheidiol ydi o fel prosiect. Mae sôn am y sioe a'i phynciau wedi agor y drws i gynyfer o sgysiau na fyddwn i erioed wedi'u cael fel arall. "Nath hwnna ddigwydd i fi fyd."... "Doeddwn i ddim wir yn gwybod beth oedd consent"... "Roedd rhaid i fi ddysgu

Nobody ever spoke to me about consent.

I vaguely remember a powerpoint presentation in our sixth form common room that ended with the boys making inappropriate jokes and several girls leaving the room in tears. I've spoken to several people with scarily similar experiences and examples of having to navigate consent and first experiences all by themselves. Watching video interviews with young people across Wales talking about their experiences of navigating consent I feel like I'm grieving all over again not only for my own lack of conversation around consent, but theirs too. This time around however, I feel hopeful that we can do something to change the (lack of) narrative.

The more I talk about **IE IE IE** with people the more it hits home how necessary it is. Just mentioning the show and its topics has opened up the door to so many conversations that I would never have otherwise had. "That happened to me too"... "I didn't really know what consent was"... "I had to learn through experience". Making a show about consent can feel

trwy brofiad". Gall wneud sioe am gydsyniad deimlo fel rhywbeth radical pan mai dyma'r ymadroddion cyffredin da chi'n eu clywed unrhyw dro i chi godi'r pwnc.

Yn y misoedd yn arwain at yr ymarferion roeddwn i wir yn teimlo pwysau'r cyfrifoldeb i ddweud y stori hon yn iawn ac i "gael o'n gywir". I mi, roedd hyn yn golygu canolbwyntio ar gydsyniad ym mhopeth a wnaethom a sicrhau ein bod yn creu a chynnal man diogel a oedd yn ymestyn o'n ymarferion i'n cynulleidfaoedd. Rhan fawr o hyn oedd ein hymgynghorwyr yn Brook Cymru a'r tîm yn Theatr Genedlaethol Cymru. Yn gynnar yn y broses, mynychodd bawb oedd yng nghlwm â'r sioe weithdy gan Brook i ddsygu am gydsyniad a sut mae pobl ifanc yn llywio ac yn dysgu am berthnasoedd a rhyw yn ein cymdeithas. Roedd hyn yn golygu ein bod ni i gyd yn teimlo'n fwy hyderus wrth siarad am gydsyniad, a galluogodd o hefyd i ni ymgorffori ym mhopeth - o'n gweithdai a ffilmio ledled Cymru i sut rydym yn cyfathrebu yn yr ystafell ymarfer a hefyd sut rydym yn llywio cydsyniad gyda'n cynulleidfaoedd.

Mae cyfarwyddo'r sioe hon wedi bod yn ffrainc a dwi wir wedi mwynhau bob eiliad. Mae hyn yn bennaf oherwydd y bobl. Mae Eleri ac Enfys wedi cofleidio pob agwedd o'r sioe gydag empathi a sensitifrwydd a dwi wedi teimlo'n freintiedig iawn o fod wedi rhannu'r profiad o'i greu gyda nhw. Rydyn ni i gyd wedi teimlo trymder y sioe gyda'n gilydd. Rydyn ni i gyd hefyd ar yr un pryd, wedi chwerthin ar bob foment ddoniol, llawn calon. Rydyn ni i gyd wedi rhyfeddu ar y ffordd gofalus a thyner mae wedi ei chrefftio. Rydyn ni i gyd yn teimlo ei frys a'i phwysigrwydd - y pwysigrwydd o drafod ei themâu ac o ddechrau'r sgryisiau hyn.

like something radical when these are the common phrases you hear whenever you bring the topic up.

In the months leading up to rehearsals I really felt the weight of responsibility to tell this story properly and to "get it right". For me, this meant centering consent in everything that we did and ensuring that we created and held a safe space that extended from rehearsals through to our audiences. A huge part of this has been down to our consultants at Brook Cymru and the team at Theatr Genedlaethol Cymru. Early on in the process everyone working on the show attended a workshop to learn about consent and how young people navigate and learn about relationships & sex in our society. This meant that we all felt more confident when talking about consent but it also meant that we could embed it in everything we do - from our workshops and filming across Wales to how we communicate in the rehearsal room and also how we navigate consent with our audiences.

Directing this show has been a total privilege and joy. This has largely been down to the people that I've worked with. Eleri and Enfys have embraced every aspect of the show with empathy and sensitivity and I've felt really privileged to have shared the experience of creating it together. We've all felt the heaviness of it together, we've all also laughed at the funny life-affirming moments it also holds in equal measures. We've all wondered how intricately and brilliantly crafted it is. We all feel its urgency and the importance of getting it out there - of starting these conversations.

Mae “gofod diogel” (“safe space”) yn derm sy'n cael ei daflu o gwmpas llawer y dyddiau hyn yn ein diwydiant. Er ei fod yn derm sy'n cael ei ordefnyddio, yn fy marn i gallaf ddweud yn wirioneddol ein bod wedi sefydlu a chynnal ein fersiwn ein hunain o ofod diogel trwy gydol y broses hon. Mae symudiad dyddiol (“parkour” / ymestyn), llif cyson o snacks stafell ymarfer, siocled poeth, chwerthin a seibiannau rheolaidd i gymryd aer wedi dod yn hanfodion syml ond annatod i deimlo'n ddiogel. Rydym yn cynnal y sesiynau ‘check-in’ arferol a dwi”n cymryd amser i fesur a checio caniatâd brwdfrydig gan unrhyw un pryd bynnag y byddaf yn gofyn rhywbeth ohonynt. Rydym hefyd yn sicrhau bod ein arferion ystafell ymarfer wedi’w hadlewyrchu yn y sioe a’r ffordd da ni’n trin ein cynulleidfaoedd. Gofynnwn am eu caniatâd cyn cychwyn ein stori, cawn eiliadau o chwerthin i gael saib o’r trymder, da ni’n sicrhau eu bod yn teimlo’n gyfforddus i adael y gofod os oes angen. Rydym yn eu gwahodd i gael check-in a chymryd eiliad o saib drwy ein hadrannau tecstio yn y sioe. O ran creu’r gofod yn ein “gofod diogel”- rwy’n credu bod y bobl yn yr ystafell wedi dod yn bwysicach i mi na’r ystafell ei hun. Mae rhywbeth hudol yn digwydd pan fydd grŵp o bobl yn dod at eu gilydd i greu sioe gyda chariad a gofal go iawn am y darn maen nhw’n ei greu - cariad sy’n mynd i’w graidd, i lawr i sut rydyn ni’n ei greu a sut rydyn ni’n trin ein gilydd.

Mae **Ie Ie Ie** yn ddyrys, mae’n ddynol, mae ganddo galon ac mae’n siarad â phawb. Rwyf wedi dal y fersiwn iau o fy hun yn agos wrth ei chyfarwyddo ac rwy’n credu y byddaf yn parhau i wneud hynny hyd yn oed heibio’r perfformiad olaf.

‘Safe space’ is a term that gets thrown around a lot these days in our industry. While it is a term that I think is overused, I can genuinely say that we’ve established and maintained our own version of a safe space throughout this process. Daily movement (“parkour”/stretching), a steady flow of rehearsal room snacks, hot chocolate, laughter and regular breaks to take air have become simple but integral essentials to feeling safe. We do the usual check-ins and I take time to gauge enthusiastic consent from anyone whenever I ask something of them. We make sure that the practices we employ in the rehearsal room are reflected in the show and how we treat our audiences - we ask for their consent to start our story, we have moments of laughter to break up the heaviness, we make sure they feel comfortable to exit the space if they need to, we invite them to check in and take a moment of pause via our text sections in the show. As for creating the space in our “safe space” - I think the people in the room have become more important to me than the room itself. Something magical happens when a group of people come together to create a show with real love and care for the piece they’re making - a love that goes right to its core, down to how we make it and how we treat each other.

Ie Ie Ie is knotty, it’s human, it has heart and it speaks to everyone. I’ve held my younger self close while directing it and I think I will continue to do so even past the last show.

Byddaf hefyd yn parhau i ymgorffori cydsyniad a'r syniad o greu lle diogel yn fy ymarferion a bywyd yn gyffredinol. Gobeithio bod y sioe yn cynnig gofod diogel i bobl sy'n dod i'w gweld. Byddaf yn parhau i gynnal y gofod hwnnw i'r rhai o'm cwmpas hyd yn oed pan fydd y sioe wedi dod i ben - oherwydd dim ond dechrau'r sgwrs yw hyn.

I will also continue to embed consent and the idea of creating a safe space in my practice and life in general. I hope that the show is a safe space for people who come to see it. I'll continue to hold that space for those around me even when the show has ended - because this is just the start of the conversation.



Eleri Morgan a / and Juliette Manon

NODYN GAN ARWEINYDD POBL IFANC A CHYNNWYS FIDEOS IE IE IE NOTE FROM IE IE IE YOUNG PEOPLE'S LEAD AND VIDEO LEAD

SIAN ELIN



Helo, fy enw i yw Sian Elin a fi ydy Cydlynnydd Cyfranogi Theatr Gen. Ar y cynhyrchiad yma, dwi'n chwarae rol ychydig yn wahanol, sy'n cyfuno fy nghariad at theatr gyda fy mrawdfrydedd o weithio gyda phobl ifanc. Ar y prosiect hwn, dw i wedi gweithio fel Arweinydd Pobl Ifanc a Chynnwys Fideos; rol sydd wedi rhoi'r cyfle i mi gwrdd â phobl ifanc led led Cymru, a dysgu am eu gwledigaeth i'r dyfodol a'u barn am y byd sydd ohoni heddiw.

Dw i wedi bod yn ffodus iawn dros y misoedd diwethaf i ymweld ag ysgolion a cholegau addysg pellach o gwmpas Cymru ar y cyd gyda thim o hwyluswyr ffantastig - William Kingshott, Anna Sherratt, a Catrin Mai Edwards. Gyda'n gilydd, aethom ati i arwain gweithdai ar gydsynio, perthnasau iach, a sut i sicrhau fod ein pobl ifanc yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth eu hunain a'u cyfoedion.

Roedd creu gwagle diogel yn hanfodol i ni fel cwmni, ac nid yr oeddwn ar unrhyw adeg am i'r gofod deimlo fel lle nad oedd modd i'r bobl ifanc rannu mewn modd agored a saff. Roedd hi'n bwysig ein bod ni i gyd yn

Hello, my name is Sian Elin and I'm the Participation Coordinator for Theatr Genedlaethol. On this production, I'm playing a slightly different role, which combines my love of theatre with my passion for working with young people. On this project, I've worked as the Young People's Lead and Video Lead; a role that has given me the opportunity to meet young people from across Wales, and learn about their vision for the future and their view of today's world.

I've been very fortunate over the past few months to visit schools and further education colleges around Wales in collaboration with a team of fantastic facilitators - William Kingshott, Anna Sherratt, and Catrin Mai Edwards. Together, we led workshops on consent, healthy relationships, and how to ensure our young people take pride in their own identity and that of their peers.

Creating a safe space was essential for us as a company, and at no point did I want the space to feel like a place where young people couldn't share in an open and safe way.

teimlo'n hyderus ein bod yn gallu ymddiried yn y rhai oedd yn rhannu'r gofod gyda ni. Mae'r trafodaethau wedi bod yn ddwys, difyr, ac crewyd ffurf o gydsynio ble'r oeddem ni'r hwyluswyr yn medru rhannu'n profiadau gyda'r bobl ifanc yn ogystal a chlywed am eu profiadau nhw.

Yn fwy 'na dim, mae gweledigaeth y bobl ifanc yn rhoi ffydd i'r genhedlaeth nesaf am y dyfodol, ac mae hwn wedi bod yn brofiad bythgofiadwy i mi. Dwi'n methu aros i gynulleidfaeodd Cymru weld gwaith amrwd, gonest, a hyderus y bobl ifanc anhygoel yma. Mwynhewch!

It was important that we all felt confident that we could trust those who shared the space with us. The discussions have been intense and fascinating, and created a form of consent where we as facilitators were able to share our own experiences with the young people as well as hear about theirs.

Above all, the young people's vision gives the next generation faith for the future, and this has been such an unforgettable experience for me. I can't wait for Welsh audiences to see the raw, honest, and confident work of these amazing young people. Have fun!



CRYNODEB SYNOPSIS

Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru
A Theatr Genedlaethol Cymru production



Mae dau berson ifanc yn ffansio'i gilydd. Mae 'na ddau arall sy'n ffansio'i gilydd 'fyd.

Mae'r ddau bâr yn dilyn llwybrau eithaf tebyg wrth i'w perthynas ddatblygu.

Tan i brofiad un fynd i gyfeiriad hollol wahanol.

Mae **Ie Ie Ie** yn addasiad Cymraeg o *Yes Yes Yes*; sioe fyw arobryn gan y gwneuthurwyr theatr o Aotearoa/Seland Newydd, Karin McCracken ac Eleanor Bishop. Gyda Juliette Manon yn cyfarwyddo, mae'r sioe yn cynnwys cyfweiliadau gonest gyda phobl ifanc Cymru, perfformiad unigol bachog, a chyfle i'r gynulleidfa gyfrannu. Dyma ddarn o theatr pwysig am brofiadau bywyd go iawn pobl ifanc heddiw sy'n codi cwestiynau hanfodol am berthnasau iach, chwant a chaniatâd.

Mewn cydweithrediad ag Aurora Nova Comisiynwyd *Yes Yes Yes* yn wreiddiol gan Auckland Live

Two young people have a crush on each other. Another two fancy each other as well.

Their stories are almost identical.

Until they're really not.

Ie Ie Ie is a Welsh adaptation of *Yes Yes Yes*; an award-winning show from award-winning Aotearoa/New Zealand-based theatre makers Karin McCracken and Eleanor Bishop. Directed by Juliette Manon, the show features honest interviews with young Welsh people, a gripping solo performance, and an opportunity for the audience to take part. This is an important piece of theatre about the real lived experiences of young people today that raises essential questions around healthy relationships, lust, and consent. In association with Aurora Nova.

Yes Yes Yes was originally commissioned by Auckland Live.

GWEITHIO GYDA PHOBL IFANC AR IE IE IE

Cyfweliadau gonest, go iawn gyda phobl ifanc ar draws Cymru sy'n serennu ochr yn ochr ag Eleri Morgan ar y llwyfan yn **Ie Ie Ie**. Ond sut brofiad oedd o i drafod a rhannu straeon ar bynciau fel cydysnio, perthnasau iach, a rhyw ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y wlad?


Cliciwch y linc isod i ddysgu mwy am sut aethom ati gyda'r bobl ifanc a'r hwyluswyr i ddod a'r rhan annatod yma o'r sioe yn fyw. Gallwch glywed gan y bobl ifanc eu hunain, ein tim creadigol, a'r hwyluswyr wrth iddynt drafod popeth yn ymwneud a **Ie Ie Ie**.

WORKING WITH YOUNG PEOPLE ON IE IE IE

Honest, real interviews with young people across Wales star alongside Eleri Morgan on stage in **Ie Ie Ie**. But what was it like to discuss and share stories on topics such as consent, healthy relationships, and sex for audiences across the country?

Click the link below to learn more about how we went about it with the young people and the facilitators to bring this integral part of the show to life. You can hear from the young people themselves, our creative team, and the facilitators as they discuss everything related to **Ie Ie Ie**.

 [Gwyllo fideos / Watch videos](#)





CAST

Eleri Morgan

TÎM CREADIGOL A CHYNHYRCHU / CREATIVE AND PRODUCTION TEAM

AWDURON / AUTHORS
Eleanor Bishop + Karin McCracken

CYFARWYDDYDD / DIRECTOR
Juliette Manon

AWDUR YR ADDASIAD CYMRAEG / AUTHOR OF WELSH ADAPTATION
Lily Beau

ARWEINYDD POBL IFANC A CHYNNWYS FIDEO
YOUNG PEOPLE AND VIDEO CONTENT LEAD
Sian Elin James

CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL / ASSISTANT DIRECTOR
Enfys Clara

CYNLLUNYDD / DESIGNER
Livia Jones

FIDEOGRAFFYDD A GOLYGU / VIDEOGRAPHER AND EDITING
Dafydd Hughes

RHEOLWR LLWYFAN AR Y LLYFR / STAGE MANAGER ON BOOK
Charly Brookman

RHEOLWR LLWYFAN TECHNEGOL / TECHNICAL STAGE MANAGER
Carwyn Williams

RHEOLWR LLWYFAN CYNORTHWYOL A CAPSIYNNYDD
ASSISTANT STAGE MANAGER AND CAPTIONS
Lleucu Williams

SRIPTIWR CAPSIYNAU / CAPTIONS SCRIPTWRITER
Melangell Dolma

CYNHYRCHYDD / PRODUCER
Gavin Richards

RHEOLWR CYNHYRCHU / PRODUCTION MANAGER
Caryl McQuilling

HWYLUSWYR / FACILITATORS
Anna Sherratt, Catrin Mai Edwards, William Kingshott

YMGYNGHORYDD HYGyrCHEDD / ACCESS CONSULTANT
Sara Louise Wheeler

DYLUNIO GRAFFEG / GRAPHIC DESIGN
Kelly King



Eleri Morgan



Enfys Clara a / and Juliette Manon

STAFF THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

TÎM RHEOLI / MANAGEMENT TEAM

Steffan Donnelly

Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr
Artistic Director and Joint Chief Executive

Angharad Jones Leefe

Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyd-Brif
Weithredwr / Executive Director and
Joint Chief Executive

Rhian Davies

Cyfarwyddwr Cynhyrchu
Director of Producing

CYFRANOGI / PARTICIPATION

Sian Elin James

Cydlynnydd Cyfranogi
Participation Co-ordinator

CYLLID A GWEINYDDIAETH FINANCE AND ADMINISTRATION

Nerys Evans

Swyddog Gweithrediadau
Operations Officer

Lisa Ronan

Swyddog Cyllid
Finance Officer

CYNHYRCHU / PRODUCTION

Gareth Wyn Roberts

Pennaeth Cynhyrchu / Head of Production

Caryl McQuilling

Rheolwr Cynhyrchu Cwmni
Company Production Manager

CYNHYRCHWYR / PRODUCERS

Fflur Thomas

Gavin Richards

Steffan Wilson-Jones

Cynhyrchydd Cynorthwyol
Assistant Producer

DATBLYGU CREADIGOL CREATIVE DEVELOPMENT

Rhian Blythe

Cyfarwyddwr Cyswllt / Associate Director

MARCHNATA A CHYFATHREBU MARKETING AND COMMUNICATIONS

Ceri Williams

Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
Marketing and Communications Manager

Elin Cain

Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
Marketing and Communications Officer

BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR BOARD OF TRUSTEES

Yr Athro Jerry Hunter Cadeirydd

Dr Nia Edwards-Behi

Siôn Fôn

Elin Parisa Fouladi

Dafydd Gwyn Jones

Elwyn Jones

Gwyn Jones

Fiona Phillips

Catherine Rees

Rhys Miles Thomas

Gwyn Williams

Meilir Rhys Williams

DIOLCH / THANK YOU

Amcan Cymru, Carlam Cyf., Copa Cymru,
Kelly King Design, Rhiannon Holland
(Mefus Photography), Theatr Bara Caws,
Kelly Harris + Christian Webb (Brook)

BYWGRAFFIADAU BIOGRAPHIES

ELERI MORGAN



Mae Eleri yn actor, comediwraig, ac awdur o ganolbarth Cymru. Mae hi wedi perfformio gigs ledled y DU, gan gynnwys Gŵyl Ymylol Caeredin, Gŵyl Gomedï Machynlleth a Gŵyl Gomedï Aberystwyth. Chwaraeodd hi'r cymeriad "Gwen" yn y rhaglen deledu *Tourist Trap* (BBC One Wales) ac fe gyrhaeddodd rownd gynderfynol *Funny Women a Digrifwr Newydd* y Flwyddyn y BBC 2021.

Mae ei chredydau ysgrifennu a pherfformio proffesiynol yn cynnwys: *The News Quiz & The Now Shows* (BBC Radio 4); *Mock The Week* (BBC One); *Backchat* (Dave Channel), ac yn fwyaf diweddar *Have I Got News For You* (BBC One). Eleni, enillodd *Bwrsari Ysgrifennu Comedi* y BBC.

Eleri is an actor, comedian, and writer from mid Wales. She has performed gigs across the UK, including the Edinburgh Fringe, Machynlleth Comedy Festival and Aberystwyth Comedy Festival. She played the character "Gwen" in the television programme *Tourist Trap* (BBC One Wales) and was a semi-finalist for *Funny Women and BBC New Comedian of the Year* 2021.

Her professional writing and performing credits include: *The News Quiz & The Now Shows* (BBC Radio 4); *Mock The Week* (BBC One); *Backchat* (Dave Channel), and most recently *Have I Got News For You* (BBC One). This year, she won the *BBC Comedy Writing Bursary*.

JULIETTE MANON

CYFARWYDDYDD

DIRECTOR



Mae Juliette yn gyfarwyddydd cwiar anneauaid Cymraeg ac yn artist amlddisgyblaethol o Ogledd Cymru. Maen nhw newydd gwblhau eu cyfnod preswyl yn Theatr Clwyd fel Cyfarwyddydd dan Hyfforddiant Carne (22-24). Cyn hynny, astudiodd yng Ngholeg Brenhinol Cerddoriaeth y Gogledd a Phrifysgol Manceinion. Maen nhw'n creu gwaith sydd â natur wleidyddol ar gyfer ac ar y cyd â phobl ifanc, ac sy'n rhoi plattform i leisiau a straeon sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar lwyfan a sgrin.

Credydau cyfarwyddo yn cynnwys: *UpRoar* (Theatr y Sherman), *Dim Byd 'Tha Chdi* (Cwmni Ifanc Frân Wen).

Credydau fel cyfarwyddydd cyswllt a chyfarwyddydd staff yn cynnwys: *The Great Gatsby* (Theatr Clwyd/The Guild of Misrule), *Truth or Dare*, *The In-Between* (NYTW).

Credydau fel cyfarwyddydd cynorthwyol yn cynnwys: *Sleeping Beauty*, *Robin Hood* (Rock 'n Roll Panto), *Famous Five*, *Celebrated Virgins*, *Y Teimlad* (Theatr Clwyd & TCIC); *Anfamol* (Theatr Genedlaethol Cymru) ac *Anthem* (Canolfan Mileniwm Cymru fel cyfarwyddydd cerdd cynorthwyol a cyfarwyddydd cynorthwyol).

Juliette is a Welsh non-binary queer director and multidisciplinary artist from North Wales. They have just completed their residency at Theatr Clwyd as Director under Carne Training (22-24). They previously studied at the Royal Northern College of Music and the University of Manchester. They create politically-engaged work for and in collaboration with young people and give a platform to underrepresented voices and stories on stage and screen.

Directing credits include: *UpRoar* (Sherman Theatre), *Dim Byd 'Tha Chdi* (Frân Wen Youth Company).

Credits as associate director and staff director include: *The Great Gatsby* (Theatr Clwyd/The Guild of Misrule), *Truth or Dare*, *The In-Between* (NYTW).

Credits as assistant director include: *Sleeping Beauty*, *Robin Hood* (Rock 'n Roll Panto), *Famous Five*, *Celebrated Virgins*, *Y Teimlad* (Theatr Clwyd & TCIC); *Anfamol* (Theatr Genedlaethol Cymru) and *Anthem* (Wales Millennium Centre as assistant music director and assistant director).

LILY BEAU

AWDUR Y FERSIWN
GYMRAEG / AUTHOR OF
WELSH ADAPTATION



Mae Lily Beau yn gantores a chyfansoddwr 25 mlwydd oed, sydd wedi gweithio ym maes cerddoriaeth, cyhoeddi cerddoriaeth ac fel A&R i label recordio neu gwmni cyhoeddi cerddoriaeth. Mae hi wedi camu i ffwrdd o ochr gorfforaethol cerddoriaeth er mwyn dilyn awch ysgrifennu creadigol a chreu cerddoriaeth yn llawn amser. Mae ei diddordeb gyda'i hiechyd meddwl wedi tanio ei hangerdd i ddod o hyd i ffyrdd creadigol i leisio ac ymchwilio ei phrofiad bywyd, gan archwilio ble gall y gair ysgrifenedig roi eglurder ac ysbrydoliaeth mewn cyfnodau heriol.

Lily Beau is a 25-year-old singer and composer, who has worked in music, music publishing and as an A&R (working for a record label or music publishing company responsible for scouting talent and overseeing the artistic development of artists and songwriters). She has stepped away from the corporate side of music to pursue the passion of creative writing and music making full time. Her interest in her own mental health has ignited her passion to find creative ways to voice and explore her life experience, looking at how the written word can provide clarity and inspiration in challenging times.

ENFYS CLARA
CYFARWYDDYDD
CYNORTHWYOL /
ASSISTANT DIRECTOR



Mae Enfys Clara yn actor a chyfarwyddydd o Gaerdydd. Fe ddechreuon nhw eu gyrfa cyfarwyddo fel Cyfarwyddydd Cynorthwyol ar *Imrie* gan Nia Morais (Cwmni Frân Wen / Theatr y Sherman). Mae Enfys yn credu bod theatr yn gallu bod yn offeryn anhygoel am newidiadau cymdeithasol. Mae nhw'n falch i weithio ar sioe fel **Ie Ie Ie**, ac yn falch bod neges fel hyn yn cael eu gyflwyno yn y Gymraeg.

Enfys Clara is an actor and director from Cardiff. They started their directing career as Assistant Director on *Imrie* by Nia Morais (Cwmni Frân Wen / Sherman Theatre). Enfys believes theatre can be a fantastic instrument for social change. They're really pleased to be working on a show like **Ie Ie Ie**, and that a message like this is being presented in Welsh.

LIVIA JONES

CYNLLUNYDD DESIGNER

Mae Livia Jones yn Ddylunydd Cymraeg sy'n raddedig o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Credydau theatr yn cynnwys / Theatre credits include:

SCROOGE (Bro Taf) *Penelopiad* (WAVDA), *A Statement After an Arrest Under the Immorality Act* (RWCMD), *Rwan Nawr* (Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Clwyd).

Credydau teledu yn cynnwys / TV credits include:

Sanditon Season / Cyfres 2 + 3 (ITV) *The Winter King* (ITVX) *The Killing Kind* (Paramount plus) *The Famous Five* (BBC).

Credydau fel artist annibynol yn cynnwys / Independent artist credits include:

Porth y Cwtsh (Leeway Productions). Liviajonesdesign.com

SIAN ELIN JAMES

ARWEINYDD POBL IFANC A CHYNNWYS FIDEOS IE IE IE IE IE IE YOUNG PEOPLE'S LEAD AND VIDEO LEAD

Astudiodd Sian Elin James BA Drama ac Astudiaethau Theatr ym mhrifysgol Aberystwyth cyn symud ymlaen i astudio MA mewn cyfarwyddo yn Nghanolfan Berfformio Cymru. Ers 2021 mae wedi gweithio i Theatr Genedlaethol Cymru fel Cydlynnydd Cyfranogi, yn arwain ar elfennau cyfranogi ein cynrychiadau ac ar brosiectau creadigol gyda phobl ifanc a chymunedau ledled Cymru. Mae ganddi brofiad eang o weithio gyda phobl ifanc, ac mae'n rhedeg cwmn ei hun fel y cymeriad Siani Sionc lle gelwyd yn diddanu plant dros y wlad y tu hwnt i'w gwaith gyda Theatr Gen.

Sian Elin James studied BA Drama and Theatre Studies at Aberystwyth University before moving on to complete an MA in Directing at UWTS'D's Wales Academy of Voice & Dramatic Arts (WAVDA). Since 2021, she has worked as Participation Coordinator at Theatr Genedlaethol Cymru, leading on participation aspects of productions, and on creative projects with young people and communities across Wales. She has vast experience of supporting young people through her work, and she runs her own company as the character 'Siani Sionc', entertaining children across the country beyond her work with Theatr Gen.

HWYLUSWYR FACILITATORS

ANNA SHERRATT



Helô! Anna ydw i, a fi'n lwcus iawn i fod yn un o'r hwyluswyr ar y prosiect **Ie Ie Ie** gan Theatr Genedlaethol Cymru. Fi'n byw yn ardal hardd Aberystwyth ac fel arfer yn gweithio rhwng Ceredigion, Sir Benfro a Chaerdydd. Rwy' wedi gweithio mewn amrywiaeth eang o swyddi, o greu cerddoriaeth i ysgrifennu, cyfarwyddo, hwyluso a chynhyrchu.

Fi'n ysgrifennu ac yn cynhyrchu dramâu fy hun, ac wedi gweithio gyda llawer o sefydliadau fel gweithiwr llawrydd gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Celfyddydau SPAN, Canolfan Arad Goch, Celfyddydau Cenedlaethol leuenctid Cymru a'r National Theatre. Mae gweithio ar **Ie Ie Ie** hyd yn hyn wedi bod yn wirioneddol unigryw a theimladwy - rydym wedi clywed pobl ifanc yn rhannu gwirioneddau caled ac yn ymddiried ynom ni gyda'u profiadau amrwd, sydd weithiau'n ddoniol iawn, weithiau'n drist, a phopeth yn y canol.

Hello! I'm Anna, and I'm very lucky to be one of the facilitators on the **Ie Ie Ie** project by Theatr Genedlaethol Cymru. I live in the beautiful Aberystwyth area and usually work between Ceredigion, Pembrokeshire and Cardiff. I've worked in a wide variety of jobs, from creating music to writing, directing, facilitating and producing.

I write and produce plays myself, and have worked with many organisations as a freelancer including Aberystwyth Arts Centre, SPAN Arts, Arad Goch, National Youth Arts Wales and the National Theatre. Working on **Ie Ie Ie** so far has been truly unique and moving - we have heard young people share hard truths and trust us with their raw experiences, which are sometimes very funny, sometimes sad, and everything in between.

I am very grateful to the group for sharing such valuable stories, their teachers who have been extremely supportive, and Sian Elin who leads us as facilitators and ensures

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r grŵp am rannu straeon mor werthfawr, eu hathrawon sydd wedi bod yn hynod gefnogol, a Sian Elin sy'n arwain ni fel hwyluswyr ac yn sicrhau bod ni gyd yn cael ein cefnogi hefyd. Rwy'n hynod angerddol am y pwnc o gydsyniad a ffeindio llawenydd mewn perthnasoedd, ac wedi gweithio yn y maes hwn o'r blaen - felly mae'n frainc ac anrhydedd gallu defnyddio'r profiad mewn prosiect iaith Gymraeg.

that we are all supported. I am extremely passionate about the subject of consent and finding joy in relationships, and have worked in this field before - so it is a privilege and honour to be able to use the experience in a Welsh language project.

HWYLUSWYR FACILITATORS

CATRIN MAI EDWARDS



Hia, Catrin dwi a dwi'n un o'r hwyluswyr ar **Ie Ie Ie**. Dwi'n actor a cherddor (*Jemima - Arad Goch, The True Adventures of Marian and Robin Hood - The Barn Theatre*) ac yn hwyluswr (Theatr Clwyd a Haywire Theatre). Dwi'n edrych ymlaen at weithio efo pobl ifanc am bwnc mor bwysig mewn ffordd sydd yn rhoi gwarchodle i'w barn a'u profiadau nhw.

Hi, I'm Catrin and I'm one of the facilitators on **Ie Ie Ie**. I am an actor and musician (*Jemima - Arad Goch, The True Adventures of Marian and Robin Hood - The Barn Theatre*) and a facilitator (Clwyd Theatre and Haywire Theatre). I'm looking forward to working with young people on such an important subject in a way that gives a safe space for their opinions and experiences.

HWYLUSWYR FACILITATORS

WILLIAM KINGSHOTT



Haia, fy enw i yw William Kingshott, rwy'n actor, cyfarwyddwr a hwylusydd o Borthmadog yn wreiddiol, ond nawr yn joio byw lawr yng Nghaerfyrddin.

Rwyf wedi mwynhau bob eiliad o weithio ar brosiect **Ie Ie Ie** gyda Theatr Gen. Rydw i'n teimlo'n mor lwcus o gael weithio gyda myfyrwyr arbenning Cymru; am bynciau o gydsynio, perthnasoedd a gwerthoedd pobl ifanc. Mae hi mor bwysig fod sioeau fel hyn yn bodoli, ac yn teithio ar draws ein gwlad - yn rhannu stori addysgiadol iawn a darparu platform i bobl ifanc cael dweud eu dweud.

Hey, my name is William Kingshott, I'm an actor, director and facilitator originally from Porthmadog, but now happily living in Carmarthen.

I have enjoyed every moment of working on the **Ie Ie Ie** project with Theatr Gen. I feel so lucky to be able to work with Welsh students; about topics of consent, relationships and young people's values. It is so important that shows like this exist, and travel across our country - sharing a very informative story and providing a platform for young people to have their say.

NODYN GAN Y PERFFORMIWR A'R CYD-SGWENNWR GWREIDDIOL / NOTE FROM THE ORIGINAL CO-WRITER AND PERFORMER KARIN MCCRACKEN

Yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf, rydw i wedi bod yn gweithio ar sut i greu theatr gyda phynciau heriol a phethau sy'n gwneud i ni deimlo'n anghyfforddus, megis rhyw, chwant a chydyniad. Rwy'n teimlo'n gryf bod y theatr yn ffurf arbennig, lle mae pobl yn dod at ei gilydd i wyllo ac i gymryd rhan, felly rhaid i ni bob amser geisio dal pŵer unigryw y theatr a gwneud pethau na all dim ond y theatr ei wneud.

Mae Ie Ie Ie yn dod â nifer o bethau sy'n diddori fi at ei gilydd.

- 1 Creu proses o gydweithio gyda'r bobl mae'r sioe yn ceisio cyfathrebu â nhw.
- 2 Ffynonellau dogfennol - cyfweliadau, straeon bywyd go iawn, actorion yn perfformio fel nhw eu hunain. I mi, does dim byd mwy pwerus na rhywun yn datgan eu gwirionedd eu hunain.
- 3 Y gred bod newid yn deillio o'r ffaith ein bod ni'n dangos empathi tuag at straeon ein gilydd. Mae theatr yn dda iawn am greu empathi oherwydd bod 'na berson go iawn yn sefyll o'ch blaen.
- 4 Dyma'r pŵer sydd gan y theatr dros y papur newydd, neu hyd yn oed ffilm. Pan fyddwn yn deall straeon pobl eraill - ar lefel emosiynol, nid dim ond ar lefel ddeallusol - rwy'n credu y gallwn ddechrau newid ein hunain.

For the past five years, I've been working on how to create theatre with challenging subjects and things that make us feel uncomfortable, such as sex, desire and consent. I feel strongly that theatre is a special form, where people come together to watch and to participate, so we must always try to capture the unique power of theatre and do things that only theatre can do.

Ie Ie Ie brings together a number of things that interests me.

- 1 Creating a process of collaboration with the people that the show is trying to communicate with.
- 2 Documentary sources - interviews, real life stories, actors performing as themselves. For me, there's nothing more powerful than someone articulating their own truth.
- 3 The belief that change stems from the fact that we show empathy for each other's stories. Theatre is very good at creating empathy because there's a real person standing in front of you.
- 4 This is the power the theatre has over the newspaper, or even film. When we understand the stories of others - on an emotional level, not just on an intellectual level - I think we can start to change ourselves.



Prosiect 40°C Llundain / Image Kristina Banholzer

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gwmni theatr deithiol sy'n dod â gwaith cyfrwng Cymraeg i gynulleidfa oedd ledled y wlad, gan roi Cymru a'i phobl ar y map.

Ein gwledigaeth yw i greu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Roedd 2023 yn nodi ugain mlynedd ers sefydlu'r cwmni. Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r cwmni wedi cofleidio clasuron y theatr Gymraeg a gwaith arbrofol newydd sbon, ac wedi cyflwyno'r cyfan ar lwyfannau traddodiadol ac mewn lleoliadau annisgwyl.

Cychwynodd 2024 gyda'r newyddion bod Angharad Jones Leefe a Steffan Donnelly – Cyd-Brif Weithredwyr y cwmni – wedi'u cynnwys yn The Stage 100 fel dau o'r bobl mwyaf dylanwadol ym myd y theatr, ac fe gyrhaeddodd y cwmni y rhestr fer Cynhyrhydd y Flwyddyn yng Ngwobrau The Stage.

Ymlaen i 2024 - dewch gyda ni!



Pijin Llundain / Image Kristina Banholzer



Ar y Dibyn Llundain / Image Kristina Banholzer



Parti Priodas Llun / Image Kristina Banholzer

Theatr Genedlaethol Cymru is a touring theatre company bringing Welsh-language work to audiences across the nation, putting Wales and its people on the map.

Our vision is to make Welsh-language theatre as a place of connection for the well-known and the unexpected, for Welshness and the world, for the big conversations and the joyful moments.

In 2023 we celebrated our 20th anniversary. Over the last two decades, the company has embraced the classics of Welsh-language theatre as well as new and experimental work, performing in traditional theatres and in unexpected locations.

2024 started with the news that **Angharad Jones Leefe** and **Steffan Donnelly** – our Joint Chief Executives – have been included in *The Stage* 100 as two of the most influential people in theatre. The company also reached the shortlist at *The Stage Awards* as Producer of the Year.

Onwards to 2024 – come join us!



Criw Creu Llun / Image Aled Llywelyn



Rwan / Nawr Llun / Image Kristina Banholzer

YMGYNGHORWR



IECHYD A LLES RHYWIOL – YMLADD AM FYWYDAU IACH

Wrth ddatblygu'r cynhyrchiad a gweithio gyda'r cyfranogwyr ifanc ar draws y wlad, mae'r cwmni wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol gan y mudiad Brook Cymru, elusen iechyd rhywiol i bobl ifanc. Gallwch ddysgu mwy am waith Brook ar y wefan, **brook.org.uk**.

Lle i fynd am gefnogaeth:

DERBYN CYNGOR A CHEFNOGAETH

Siaradwch gydag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo
Dweud wrth eich meddyg teulu neu nyrs ysgol

brook



brook.org.uk

ChildLine
0800 1111



childline.org.uk



0800 1111

meic



meiccymru.org



080880 23456
Tecst meic
84001



RAPE
CRISIS
England & Wales



rapecrisis.org.
uk



0808 802 9999

CONSULTANT



SEXUAL HEALTH & WELLBEING - FIGHTING FOR HEALTHY LIVES

While developing this production and working with young participants across the nation, the company has received training and consultancy support from Brook Cymru, the sexual health charity working with young people. You can learn more about Brook's work on their website, **brook.org.uk**.

Where to go for support:

GETTING HELP AND SUPPORT

Talk to a trusted adult
Tell your GP or school nurse

brook



brook.org.uk



See webpage for
local clinics and
phone lines

ChildLine
0800 1111



childline.org.uk



0800 1111

THE MIX



themix.org.uk



0808 808 499
text **THEMIX**
to **85258**

Rape Crisis – Live
Chat function
and phone
0808 802 9999

rapecrisis.org.uk

THEATR I GYMRU THEATRE FOR WALES



Fel elusen gofrestredig, mae Theatr Genedlaethol Cymru yn ddibynol ar nawdd a rhoddion gan ein cymunedau, ac ni fyddai'n bosib i ni barhau i ddi-ddanu ein cynulleidfaoedd heb gefnogaeth ariannol gan ystod eang o ffynonellau.

Hoffech chi ein cefnogi?

I gyfrannu £5, tecstiwch **THEATRGEN 5** i **70085**.

Cost y neges fydd £5 yn ogystal â phris un tecst arferol.

I gyfrannu £10, tecstiwch **THEATRGEN 10** i **70085**.

Cost y neges fydd £10 yn ogystal â phris un tecst arferol.

Mae modd cyfrannu ar-lein hefyd ar ein gwefan theatr.cymru

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

As a registered charity, Theatr Genedlaethol Cymru depends on sponsorship and donations from our communities, and it wouldn't be possible for us to continue to entertain our audiences without financial support from a wide variety of sources.

Would you like to support us?

To donate £5, text **THEATRGEN 5** to **70085**. Texts cost £5 plus one standard rate message.

To donate £10, text **THEATRGEN 10** to **70085**. Texts cost £10 plus one standard rate message.

You can also donate online at theatr.cymru

Diolch yn fawr for your continued support.



**Theatr
Genedlaethol
Cymru**

